


Annwyl Gydweithwyr,

Blwyddyn newydd dda iawn i bob un ohonoch chi a gobeithio bod egwyl y Nadolig wedi eich adfywio. Gallwch ddarllen am ddigwyddiadau a straeon newyddion CILT Cymru o'r tymor diwethaf isod, gan gynnwys Cynhadledd Ieithoedd Cymru 2014 a oedd yn hynod lwyddiannus.

Mae 'na ddatblygiadau cyffrous o'n blaenau ym myd addysg a chymwysterau yng Nghymru dros y misoedd nesaf. Yn gynharach yn 2014, gofynnodd Llywodraeth Cymru i'r Athro Graham Donaldson gynnig argymhellion am weledigaeth glir ar gyfer addysg yng Nghymru a chyhoeddir ei argymhellion yn gynnar eleni. Mae'r broses wedi cynnwys ymgynghoriad agored a chais am dystiolaeth, y mae llawer ohonoch chi wedi ymateb iddo, a seminar unigryw ar ddysgu iaith a gynhaliwyd gan yr Athro Donaldson ei hun, a gwahoddwyd nifer o athrawon ITM o Gymru ynghyd â chynrychiolwyr CILT Cymru i fod yn bresennol. Edrychwn ymlaen, felly, at ddarllen argymhellion ynglŷn â safle ieithoedd tramor yn benodol yng nghwricwlwm Cymru yn y dyfodol.

Parhau mae'r camau i lunio'r manylebau ar gyfer cymwysterau TGAU, AS a Lefel A newydd yng Nghymru. Mae CBAC yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid ar hyn o bryd i lunio'r manylebau newydd hyn ac maent yn ceisio safbwyntiau rhanddeiliaid trwy gyfrwng eu harolygon ar-lein. Ceir mwy o wybodaeth am y rhain isod. Peidiwch ag anghofio lleisio'ch barn am fanylebau ITM i'w dysgu gyntaf ym Medi 2016!

Yn yr arfaeth hefyd y tymor hwn mae digwyddiadau i godi proffil ITM yn y cyfnod cyn dewis pynciau ym Mlwyddyn 9. Yn eu plith mae digwyddiadau Hyfforddi Llysgenhadon Iaith Rhanbarthol i ddisgyblion mewn tri lleoliad ar draws Cymru.

Edrychwn ymlaen at barhau i gydweithio â chi mewn partneriaethau.

*Tîm CILT Cymru*

Dilynwch CILT Cymru ar Twitter

Dear colleagues,

A very happy new year to you all and hoping you are refreshed after the Christmas break.
You can read about the CILT Cymru events and news stories from last term below, including the hugely successful Languages Wales Conference 2014.

There are some exciting developments ahead of us in the world of education and qualifications in Wales over the next few months. Earlier in 2014, Professor Graham Donaldson was tasked by Welsh Government with putting forward recommendations for a clear vision for education in Wales, and will be publishing his recommendations early in this New Year. The process has included an open consultation and call for evidence, to which many of you responded, and a unique seminar on language learning hosted by Professor Donaldson himself, to which a number of MFL teachers from Wales were invited along with CILT Cymru representatives. We therefore look forward to reading recommendations about the place of foreign languages in particular in the future curriculum for Wales.

On-going is the shaping of new GCSE, AS and A Level specifications for Wales. The WJEC are currently working with Welsh Government and stakeholders to shape these new specifications and are seeking stakeholder views through their on line surveys, details of which can be found below. Don't forget to have your say on MFL specifications for first teaching in September 2016!

Also in the pipeline this term are some scheduled events for raising the profile of MFL in the run up to Year 9 options time. These include Regional Pupil Language Ambassador Training events in 3 locations across Wales.

We look forward to continued partnership working with you.

*The CILT Cymru team*

Follow CILT Cymru on Twitter

@CILTCymru

# Digwyddiadau a chefnogaeth ranbarthol CILT Cymru

## Llysgenhadon Iaith - Hyfforddiant Rhanbarthol i Ddisgyblion

A oes angen cefnogaeth arnoch chi i hyrwyddo ITM ymhlith eich disgyblion yn y cyfnod cyn dewis pynciau ac i godi niferoedd yng Nghyfnod Allweddol 4 a thu hwnt?

Mae CILT Cymru, mewn partneriaeth â'r Cyngor Prydeinig a Llwybrau at Ieithoedd Cymru, yn cynnal cyfres o dri digwyddiad ar gyfer disgyblion Blwyddyn 8, 9 a 10 sy'n cynnig cyfle iddynt ddysgu am y manteision a'r buddion a ddaw yn sgil parhau â'u hastudiaethau iaith, gan eu hyfforddi i ymgymryd â rôl Llysgenhadon Iaith yn ôl yn y dosbarth.

Bydd gweithdai'n cynnwys sesiynau blasu iaith, gemau'n llawn hwyl a chystadleuthau a arweinir gan staff CILT a Llwybrau Cymru, y Goethe Institut, Consejería de Educación, L'institut Français a Myfyrwyr sy'n Llysgenhadon Iaith. Bydd cyfleoedd yn ogystal i gynllunio digwyddiadau codi proffil ITM yn eich ysgol yn y dyfodol a chyfleoedd i'r disgyblion gymryd rhan yng nghystadleuaeth Tîm y Flwyddyn Llysgenhadon Iaith Cenedlaethol.




Lansiwyd y Prosiect 'Disgyblion sy'n Llysgenhadon Iaith' (DLlI) gan CILT Cymru a Llwybrau Cymru yn 2013/14 gyda'r nod o hyfforddi grwpiau o ddisgyblion mewn ysgolion i gymryd perchnogaeth a chyfrifoldeb dros hyrwyddo gwerth dysgu ieithoedd tramor. Mae'r DLlI yn mynd rhagddynt i drefnu digwyddiadau a gweithgareddau yn yr ysgolion mewn partneriaeth â'u hathrawon yn ogystal â sefydliadau allanol fel Pencampwyr Ieithoedd Busnes CILT Cymru a

@CILTCymru

# CILT Cymru regional support and events

## Regional Pupil Language Ambassador Training

Do you need support to promote MFL amongst your pupils in the run up to options and raising uptake in Key Stage 4 and beyond?

CILT Cymru have partnered with the British Council and Routes into Languages Cymru, to host a series of three events for pupils in Year 8,9 and 10 which offer them an opportunity to learn about the benefits and rewards of continuing their language studies and to train them to take on the role of Pupil Language Ambassadors back in school.

Workshops will include language taster sessions, fun games and competitions led by CILT and Routes Cymru staff, the Goethe Institut, Consejería de Educación, L'institut Français and Student Language Ambassadors. There will also be opportunities to plan future MFL profile raising events in your school and for the pupils to take part in the National Pupil Language Ambassador Team of the Year competition.




The Pupils Language Ambassador (PLA) Scheme Project was launched by CILT and Routes Cymru in 2013/14. The aim of the project is to train groups of pupils within schools to take ownership of promoting the value of foreign language learning. PLAs go on to organize events and activities within the school community in partnership with their teachers as well as outside bodies such as a CILT Cymru Business Language Champions and Routes Cymru Student Language Ambassadors.

The project has proved to be a great success, with participating schools seeing positive changes in attitude towards language learning and a subsequent rise in pupils continuing with their MFL study in Key

Llysgenhadon Iaith Llwybrau Cymru.

Mae'r prosiect wedi bod yn llwyddiant ysgubol, gyda'r ysgolion a oedd yn rhan o'r cynllun yn gweld newidiadau cadarnhaol o ran agwedd tuag at ddysgu ieithoedd a chynnydd dilynol yn y nifer sy'n parhau i astudio ITM yng Nghyfnod Allweddol 4.

**Gallwch gofrestru 4-5 disgybl (Blwyddyn 8-10) o'ch ysgol i gymryd rhan yn y digwyddiad unigryw hwn**.

**Chwefror 5, 2015** – Neuadd y Ddinas, Caerdydd

Cofrestrwch nawr!!

**Chwefror 27, 2015** – Lleoliad i'w gadarnhau – *cofrestru i'w gyhoeddi'n fuan*

**Mawrth 5, 2015** – Prifysgol Aberystwyth – *cofrestru i'w gyhoeddi'n fuan*

**I gofrestru diddordeb, cysylltwch a Sion James: Cyngor Prydeinig**

Stage 4.

**You can register 4-5 pupils (Year 8-10) from your school to take part in this unique event.**

**February 5, 2015** - Cardiff City Hall

Registration now open!

**February 27, 2015** – Venue TBC – *registration to be published soon*

**March 5, 2015** – Aberystwyth University - *registration to be published soon*

**To register interest contact Sion James, British Council**

## Gweithgor Gogledd Cymru: Technolegau newydd

Erbyn hyn, mae gweithgor CILT Cymru yn y Gogledd hanner ffordd trwy ei waith ar ddatblygu adnoddau i gynorthwyo athrawon iaith sy'n dymuno ymgorffori mwy o sgiliau TGCh yn eu dysgu a'u haddysgu. Bydd yr adnoddau'n gymorth i lenwi bwlch ar adeg pan ddaw mwy a mwy o dechnoleg i'r amlwg ond pan nad oes gan athrawon o reidrwydd amser di-ben-draw i dreialu'r dechnoleg yma.

Mae'r grŵp yn cynnwys athrawon iaith sydd, bob un ohonynt, wedi bod yn defnyddio technolegau newydd i gyfoethogi eu harfer yn y dosbarth ac a oedd yn awyddus i rannu eu syniadau â chynulleidfa ehangach. Penderfynodd y grŵp gynhyrchu cyfres o ganllawiau i annog athrawon i ystyried y manteision a ddaw o ddefnyddio technolegau newydd gyda phwyslais penodol ar y technolegau hynny sy'n cael effaith arwyddocaol ar gymhelliad a chyrhaeddiad disgyblion. Bydd y canllawiau'n glir ac yn ymarferol a bydd ganddynt gyfarwyddiadau cam wrth gam ochr yn ochr ag awgrymiadau ynglŷn â sut y bydd defnydd o dechnoleg o fudd i grwpiau targed o fyfyrwyr. Byddant yn canolbwyntio ar dechnoleg sy'n rhad ac am ddim neu'n rhad iawn a byddant yn cwmpasu technoleg a all ddatblygu ystod eang o sgiliau yn y modd mae disgyblion yn dysgu iaith.

Mae'r grŵp eisoes wedi cyfarfod ddwywaith er mwyn cynllunio datblygu adnoddau a chaiff ei waith ei gwblhau yn dilyn dau gyfarfod pellach yn gynnar yn 2015. Ar ôl i'r canllawiau gael eu cwblhau, byddant ar gael yn rhad ac am ddim ar wefan CILT Cymru.

## North Wales Working Group: Emerging Technologies

The North Wales CILT Cymru working group is now mid-way through its work on developing resources to assist language teachers who wish to incorporate more ICT skills into their teaching and learning. The resources will help to fill a gap at a time when more and more technology is becoming available but when teachers may not have unlimited amounts of time to trial this technology.

The group consists of language teachers who have all been engaged in using emerging technologies to enhance their classroom practice and who wished to share their ideas with a wider audience. The group decided to produce a series of guides to encourage teachers to consider the benefits of using new technologies with a specific emphasis on those technologies that have a significant impact on pupil motivation and attainment. The guides will be clear and practical and will contain step by step instructions alongside suggestions for how the use of technology will benefit target groups of students. They will concentrate on technology that is free or very low cost and will encompass technology that can develop a wide range of skills in pupils' language learning.

The group has already met twice to plan resource development and its work will be completed following a further two meetings in early 2015. Following completion of the guides, they will be available free of charge on the CILT Cymru website.

# Dyddiadau digwyddiadau, lleoliadau a sut i gofrestru...

## Hyfforddiant Llechen Android ar gyfer Athrawon ITM:

Bydd y sesiwn hon yn canolbwyntio ar sut I ddefnyddio rhaglenni ar lechi Android I wella dysgu ac addysgu yn yr ystafell ddosbarth ITM. Bydd athrawon sy'n mynychu'n cael defnyddio llechen Android yn ystod y sesiwn, ac mae croseo iddyn nhw ddod â'u dyfeisiau eu hunain. Mae lle I hyd at 30 o athrawon ar sail y cyntaf i'r felin.

Dyddiad: **Dydd Mawrth, 10 Chwefror**
Lleoliad: **Ysgol Uwchradd Argoed**
Amser: **4.00-6.00**
Hyfforddwr: **Arbenigwr TGCh a hyfforddwr addysgwr iaith-Joe Dale**

I gofrestru ar gyfer y digwyddiad AM DDIM , cysylltwch a Samantha Summerill.

# Event dates, venues + how to register...

## Android Tablet Training for MFL Teachers:

This session will focus on how to use apps on Android tablets to enhance teaching and learning in the MFL classroom. Teachers who attend will have use of an Android tablet during the session and are welcome to bring their own device along. Up to 30 teachers can attend on a first come, first served basis.

Date: **Tuesday 10th February**
Venue: **Argoed High School**
Time: **4pm-6pm**
Trainer: **ICT specialist and language teacher trainer - Joe Dale**

To register for this FREE CPD event please contact Samantha Summerill.

# NEWYDDION CILT Cymru

## Ieithoedd Cymru 2014

Ar yr 21ain o Dachwedd, cynhaliodd CILT Cymru ei Chynhadledd Ieithoedd Cymru flynyddol yng Nghaerdydd. Roedd y Gynhadledd dan ei sang eleni gyda mwy na 100 o gynrychiolwyr, siaradwyr ac arddangoswyr yn bresennol a gweithdai ysgogol gan rai fel Greg Horton o "Group Talk", Steve Glover, perchennog y gwefannau Lefel A Ffrangeg, Almaeneg a Sbaeneg ac ymarferwyr arloesol eraill o ysgolion ledled Cymru.

# CILT Cymru NEWS

## Languages Wales 2014

On the 21st of November, CILT Cymru held its annual Languages Wales Conference in Cardiff. The Conference was a sell out this year with over 100 delegates, speakers and exhibitors in attendance and inspiring workshops from the likes of Greg Horton of "Group Talk" fame, Steve Glover, owner of the A Level French, German and Spanish websites and other innovative practitioners from schools across Wales.




*Y prif siaradwr, Kathryn Board, yn trafod gwerth sgiliau ieithoedd tramor ar gyfer busnes a chyflogaeth yn y dyfodol*



*Salsa “tynn” Greg Horton*



*Llysgenhadon Iaith Abertyleri a Chaergybi yn ennill edmygedd y dorf gyda’u gweithgareddau i hyrwyddo ITM*

Mae cyflwyniadau’r prif siaradwyr a deunydd fideo ar gael bellach i chi eu lawrlwytho a’u gwylio yma ar wefan CILT Cymru.




*Keynote speaker, Kathryn Board, on the value of foreign languages skills for future business and employment*



*Greg Horton’s “tense” salsa*



*Abertillery and Holyhead Pupil Language Ambassadors impress the crowd with their MFL promotional activities*

The key speaker presentations and video coverage are now available for you to download and view on the CILT Cymru website here.

Diolch yn fawr i'n holl siaradwyr, i'r athrawon a'r disgyblion a gyfrannodd, i'r arddangoswyr a chynadleddwyr am gyfrannu i lwyddiant y gynhadledd.

A big thank you to all our speakers, teacher and pupil contributors, exhibitors and delegates for contributing to the conference's success.

---

## Cyfarfodydd Niferoedd Rhanbarthol CILT Cymru

Mae ymgynghorwyr rhanbarthol CILT Cymru wedi bod yn cynnal sawl cyfarfod ½ diwrnod gyda'r bwriad o gefnogi adrannau ITM i gynnal a chodi nifer y disgyblion sy'n parhau i astudio ieithoedd tramor hyd at Gyfnod Allweddol 4 a thu hwnt. Hyd yma, y tymor diwethaf, cynhaliwyd 7 cyfarfod ar gyfer dros 60 o ysgolion ledled Cymru gyda cyfarfod pellach yn cael ei gynnal yn Abertawe ar ddydd Mercher, Ionawr 28, 9.00-12.30, yn Ysgol Gyfun Gwyr.

I gofrestru cysylltwch a Anna Vivian Jones.

Os nad oeddech chi'n medru mynychu unrhyw rai o'r cyfarfodydd a'ch bod yn awyddus i gael cefnogaeth neu gyngor, mae croeso ichi gysylltu ag un o Ymgynghorwyr Rhanbarthol CILT Cymru:

**Nia Gwyn Jones**
Consortiwm Canol De a De Ddwyrain Cymru
Tel: **02920 265405**
Email: Nia Jones

**Ciara Brennan**
Consortiwm Gogledd Cymru
Tel: 07557 439948
Email: Ciara Brennan

**Anna Vivian Jones**
Consortiwm De Orllewin a Chanolbarth Cymru
Tel: 07557 439947
Email: Anna Vivian Jones

Mynegodd nifer o'r rhai fu'n bresennol ddiddordeb mewn cyfarfodydd rhwydweithio pellach, felly cadwch lygad ar agor am ddyddiadau i'w rhoi yn eich dyddiaduron yn ystod 2015/16.

## CILT Cymru Regional Uptake Meetings

CILT Cymru regional advisers have been hosting a number of ½ day meetings aimed at supporting MFL departments to sustain and raise uptake of pupils continuing with their foreign languages into Key Stage 4 and beyond. So far, last term, we hosted 7 meetings schools for over 60 schools across the whole of Wales with the next meeting taking place in Swansea on Wednesday, January 28, 9.00-12.30, at Ysgol Gyfun Gwyr.

To register please contact Anna Vivian Jones.

If you were unable to attend any of the regional meetings and require support or advice, please contact your CILT Cymru Regional Adviser.

**Nia Gwyn Jones**
Central South + South East Consortium
Tel: **02920 265405**
Email: Nia Jones

**Ciara Brennan**
North Wales Consortium
Tel: 07557 439948
Email: Ciara Brennan

**Anna Vivian Jones**
South West + Mid Wales Consortium
Tel: 07557 439947
Email: Anna Vivian Jones

A number of attendees expressed an interest in further networking meetings so look out for future dates for your diaries for 2015/16.

---

## Disgyblion Blwyddyn 9 Llangatwg yn elwa o weithdai "Gyrfaoedd gydag Ieithoedd"

## Llangatwg Year 9 pupils benefit from "Careers with Languages" workshops





Doedd dim amheuaeth ym meddyliau disgyblion Blwyddyn 9 Ysgol Gyfun Llangatwg, Castell-nedd, ynglŷn â gwerth ieithoedd i'w dyfodol yn ystod Carwsél Gyrfaoedd a drefnwyd ar eu cyfer gan eu Pennaeth Ieithoedd, Mrs Alison Ballantine, ar Ragfyr 3. Rhannwyd y flwyddyn yn bedwar grŵp, gyda phob un yn cael ei annerch am hanner awr gan bedwar siaradwr gwahanol. Er mai pwysigrwydd ieithoedd yn y gymdeithas sydd ohoni oedd y thema gyffredin, roedd y negeseuon a gyflëwyd gan bob siaradwr yn amrywiol.

Llwyddodd y Dr Gaspare Benenetti, sy'n Llysgennad ITM-GTPM o Ortho Clinical Diagnostics yn Ysbyty Pen-y-bont ar Ogwr, i swyno'r disgyblion trwy ddangos sut y gall ieithoedd wella gyrfa mewn gwyddoniaeth a thechnoleg. Siaradodd Mr Gareth Spencer, sy'n ymgynghorydd busnes annibynnol, am sut mae'r Ffrangeg wedi cyfoethogi ei fywyd personol a phroffesiynol, tra disgrifiodd Miss Chloe Headon, Myfyrwraig sy'n Llysgennad Iaith, y manteision diwylliannol ac ieithyddol o dreulio blwyddyn dramor. Llwyddodd sgwrs am yrfaoedd gan CILT Cymru i agor meddyliau'r disgyblion i'r byd ehangach, gan eu herio i gadw eu hopsiynau ar agor trwy ddewis iaith hyd at TGAU.

Rhaid i bob penderfyniad da fod yn benderfyniad cytbwys ac, erbyn diwedd y bore, roedd gan ddisgyblion Llangatwg ddigon i gnoi cil drosto!

## Ysgol Gyfun Radur – Gweithdy





Year 9 in Llangatwg Comprehensive, Neath were left in no doubt as to the value of languages for their future during a Careers Carousel organised for them by their Head of Languages, Mrs. Alison Ballantine, on December 3rd. The year was split into four groups, each of which received a half-hour talk from four different speakers.

Although the importance of languages in today's society was the common theme, the messages conveyed by each speaker were varied. Dr. Gaspare Benenetti, a STEM-MFL Ambassador from Ortho Clinical Diagnostics in Bridgend Hospital, captivated the pupils by showing how languages can enhance a career in science and technology. Mr. Gareth Spencer, an independent business consultant, talked of how French has enhanced both his personal and professional life, whilst Miss Chloe Headon, a Student Language Ambassador, described the cultural and linguistic benefits of a year abroad. A careers talk by CILT Cymru opened the pupils' minds to the wider world, challenging them to keep their options open by choosing a language to GCSE.

All good decisions must be informed decisions and the morning gave Llangatwg pupils plenty of food for thought!

## Radyr Comprehensive School - Languages Translation

## Cyfieithu Ieithoedd

Yn ddiweddar, bu myfyrwyr Ffrangeg Blwyddyn 12 a 13 o Ysgol Gyfun Radur yn rhan o weithdy cyfieithu a arweiniwyd gan gyfieithwyr proffesiynol Silke Lührmann o Wolfestone Translation Ltd a Gabrielle Kirov. Cymerodd y myfyrwyr ran mewn amryw ymarferion cyfieithu gan edrych ar nifer o destunau gan gynnwys cerddi ac erthyglau papur newydd. Barnwyd bod hyn yn fuddiol iawn a'i fod yn ymarfer da ar gyfer y cwestiwn cyfieithu yn eu harholiadau. Dyma a ddywedodd un o'r myfyrwyr:

**“Roeddwn i WRTH FY MODD heddiw. Roedd yn hwyl wirioneddol a'r hyn roeddwn i'n ei hoffi'n arbennig oedd sut aethon ni i'r afael ag amrywiaeth o gyfieithiadau - o'r llenyddol i gyfieithiadau mwy cyffredin, bob dydd. Mae wedi gwneud imi feddwl o ddifri am sut y galla i ddefnyddio fy Ffrangeg yn y dyfodol.”**



*Gweithdy cyfieithu*




*Beth sydd mewn cwpan?*

## Workshop

Year 12 and 13 French students from Radyr Comprehensive School recently took part in a translation workshop led by professional translators Silke Lührmann from Wolfestone Translation Ltd and Gabrielle Kirov. The students took part in a variety of translation exercises, looking at a range of texts including poems and articles from newspapers. They found it very beneficial and good practice for the translation question in their exams. To quote one of the students:

**"I LOVED today, it was really fun and especially liked how we covered a range of translations from literary to more common everyday translations. It really made me think about how I can use my French in the future.”**



*Translation workshop*




*What's in a cup?*

# Newyddion Eraill

**Cymwysterau ITM yng Nghymru o 2016 – eich cyfle i fynegi'ch barn a llunio'r manylebau TGAU, AS a Lefel A sydd i ddod**

Mae CBAC yn y broses o weithio gyda rhanddeiliaid allweddol (gan gynnwys Llywodraeth Cymru, Estyn,

# Other News

## MFL Qualifications in Wales from 2016 – your chance to express your views and shape future GCSE, AS and A Level

ymarferwyr ac arbenigwyr pwnc annibynnol) i ddatblygu argymhellion drafft ar gyfer cymwysterau TGAU, AS a Lefel A newydd mewn Ieithoedd Modern (Ffrangeg, Almaeneg a Sbaeneg). Er mwyn llywio cam nesaf y broses hon, maent yn awyddus i glywed eich barn am rai o'r prif argymhellion, a hynny trwy gyfrwng arolwg ar-lein.

Trwy ymgynghoriad â Llywodraeth Cymru, byddant yn cwblhau prif nodweddion y cymwysterau newydd yng ngoleuni adborth o'r arolwg hwn. Bydd y manylebau newydd ar gael i ganolfannau yn hydref 2015 ac fe'u dysgir o Fedi 2016.

A chadwch lygad ar agor am yr arolwg AS a Lefel A a fydd ar gael cyn bo hir. Cliciwch Yma.

## specifications

The WJEC is in the process of working with key stakeholders (including Welsh Government, Estyn, practitioners and independent subject experts) to develop draft proposals for new GCSEs, AS and A Levels in Modern Languages (French, German and Spanish). In order to inform the next stage of this process, they wish to elicit your views on some of the key proposals via an online survey.

They will, in consultation with the Welsh Government, finalise the main features of the new qualifications in light of feedback from this survey. The new specifications will be available to centres in autumn 2015 and taught from September 2016.

And look out for the AS and A Level survey which will be available soon. [Click here]

# Newyddion Llwybrau Cymru

Dilynwch y ddolen YMA i ddarllen am holl waith ac amcanion Routes Cymru (Awst - Rhagfyr 2014).

**NODYN DYDDIADUR - Gweithdy Ffilm Ffrangeg Safon Uwch | 11.02.15 |**
Prifysgol Caerdydd, Ysgol Ieithoedd Modern, 66a Plas y Parc, Caerdydd CF10 3AS.
Dilynwch y ddole YMA am wybodaeth bellach.

**NODYN DYDDIADUR - Gweithdy Ffilm Sbaeneg Safon Uwch | 25.02.15 |**
Prifysgol Caerdydd, Ysgol Ieithoedd Modern, 66a Plas y Parc, Caerdydd CF10 3AS.
Dilynwch y ddolen YMA am wybodaeth bellach.

**NODYN DYDDIADUR - Gweithdy Ffilm Almaeneg Safon Uwch | 04.03.15 |**
Prifysgol Caerdydd, Ysgol Ieithoedd Modern, 66a Plas y Parc, Caerdydd CF10 3AS.
Dilynwch y ddolen YMA am wybodaeth bellach.

# Routes Cymru News

Click HERE to read all about Routes Cymru's work and objectives (August - December 2014).

**DIARY NOTE - French A Level Film Workshop | 11.02.15 |**
Cardiff University, Cardiff School of Modern Languages, 66a Park Place, Cardiff CF10 3AS.
Click HERE for further information.

**DIARY NOTE - Spanish A Level Film Workshop | 25.02.15 |**
Cardiff University, Cardiff School of Modern Languages, 66a Park Place, Cardiff CF10 3AS.
Click HERE for further information.

**DIARY NOTE - German A Level Film Workshop | 04.03.15 |**
Cardiff University, Cardiff School of Modern Languages, 66a Park Place, Cardiff CF10 3AS.
Click HERE for further information.

## Adnoddau ar gyfer hyrwyddo ITM i athrawon a dysgwyr

Peidiwch ag anghofio ymweld â'n dolen **ADNODDAU NEWYDD** ar dudalen flaen ein gwefan. Yn y cyfamser, dyma ambell ddolen ddethol i adnoddau codi proffil ITM a all fod yn ddefnyddiol i chi yn y cyfnod cyn dewis pynciau. Yn eu plith mae adnoddau ar gyfer eu harddangos, gweithgareddau

## Resources for promoting MFL for teachers and learners

Don't forget to check our **NEW RESOURCES** link on the front page of our website. In the meantime, here are some choice links to MFL profile raising resources that may be useful for you in the run up to options time. These include resources for display, classroom activities and videos promoting the value

dosbarth a fideos yn hyrwyddo gwerth sgiliau ITM ar gyfer bywyd a gwaith.

of MFL skills for life and work.

## ITM a Gyrfaoedd

## Isod mae cyfres o lincs defnyddiol:

1. uned gwaith gyrfaoedd
2. dolenni defnyddiol ar gyfer gweithgareddau gyrfaoedd
3. feithiau am ieithoedd
4. ieithoedd gyda gyrfeydd eraill
5. cyfleoedd gydag ieithoedd
6. ieithoedd a chyflogadwyedd
7. Gwefn Swyddi Amliaith
8. Gwefan Omniglot
9. Gwefan Toplanguagejobs

Proffiliau Llysgenhadon Iaith - Disgyblion

**Dadlau'r achos dros ITM**

1. Rhieni: "Why study languages?"
2. Rachel Hawkes
3. Languages Future (Cyngor Prydeinig)
4. Education and skills survey (CBI)
5. CILT Cymru BLC

## MFL and Careers

## Below are a series of useful links:

1. unit of work careers
2. useful links for careers activities
3. facts about languages
4. languages with other careers
5. opportunities with languages
6. languages and employabilty
7. multilingual vacancies website
8. **MailScanner has detected a possible fraud attempt from "www.omniglot.com" claiming to be** omniglot.com website
9. toplanguagejobs website

Pupil Language Ambassador Profiles

**Making the case for MFL**

1. Parents: Why study languages?
2. Rachel Hawkes
3. Languages Future (British Council)
4. Education and skills survey (CBI)
5. CILT Cymru BLC

## Y ffeithiau am gymwysterau ITM

Dyma linc arall defnyddiol:
http://www.russellgroup.ac.uk/faqs#2

## The facts about MFL qualifications

Here is another useful link:
http://www.russellgroup.ac.uk/faqs#2

## ITM = pwnc hwylusol

A wyddech chi fod Coleg Prifysgol Llundain yn mynnu bod israddedigion o 2012 yn meddu ar TGAU neu gymhwyster cyfwerth mewn iaith fodern? Bydd gofyn i fyfyrwyr sy'n methu cwrdd â'r angen hwn astudio o leiaf uned hanner-cwrs mewn iaith dramor fel rhan o'u gradd.

Prifysgol Caerdydd**:** **[Cliciwch Yma]**

Prifysgol Bangor**:** **[Ciciwch Yma]**

## MFL = facilitating subject

Did you know that University College London requires all undergraduates from 2012 to have a GCSE or equivalent qualification in a modern language? Students unable to fulfil this requirement will be required to take at least a half-course unit in a foreign language as part of their degree.

Cardiff University**:** **[Click Here]**

Bangor University**:** **[Click Here]**

# Adnoddau Eraill

Erbyn hyn, mae rhifyn cyntaf yr e-Zine ITM wedi cael ei gyhoeddi gan CBAC: **[Ciciwch Yma]**

- Mae'r adnodd yn darparu'r deunyddiau darllen diweddaraf ar ffurf e-gylchgrawn a gynhyrchir deirgwaith y flwyddyn i ddysgwyr sy'n astudio ar gyfer TGAU Ffrangeg, Almaeneg a Sbaeneg neu gymwysterau iaith eraill drwy gyfrwng y Gymraeg a Saesneg.

- Bydd pob rhifyn yn cynnwys 3 symbyliad darllen a nifer o weithgareddau rhyngweithiol.

- Caiff dysgwyr gyfle i brofi a darllen amrywiaeth o ffurfiau a thestunau, ffeithiol a dychmygol, sy'n ymwneud â gwledydd a chymunedau'r iaith darged.




# Other Resources

The first edition of the MFL E Ezine has now been published by WJEC. **[Click Here]**

- The resource provides up-to-date reading materials in the form of an e-magazine, produced 3 times a year for learners studying for GCSE French, German and Spanish or other language qualifications through the medium of Welsh and English.

- Each issue will include 3 reading stimuli and a number of interactive activities.

- Learners are given an opportunity to experience and read a variety of forms and texts, factual and imaginary, which relate to the countries and communities of the target language.

